


Law Commission
Reforming the law

# Dogfennau masnach electronig

## Crynodeb

## CYFLWYNIAD

Mae masnach ryngwladol yn werth tua £1.266 triliwn i'r DU, yn ôl ffigurau diweddaraf yr Adran Masnach Ryngwladol. Yn aml iawn mae'r broses o symud nwyddau ar draws ffiniau yn cynnwys nifer o weithredwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â chludiant, yswiriant, cyllid a logisteg. Fel arfer mae un trafodiad cyllid masnach yn cynnwys 20 endid a rhwng 10 ac 20 o ddogfennau papur, sy'n gwneud cyfanswm o dros 100 tudalen.

Er mor fawr a soffistigedig yw'r farchnad hon, mae llawer o'i phrosesau, a'r cyfreithiau sy'n sail iddynt, yn seiliedig ar arferion a ddatblygwyd gan fasnachwyr gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Enghraifft amlwg o hyn yw'r ffaith fod dogfennau papur yn dal i gael eu defnyddio, er gwaethaf datblygiadau ym maes technoleg yn ddiweddar a fyddai'n caniatáu i ddogfennau electronig diogel, dibynadwy ac anghyfnewidadwy gael yr un effaith â'u cymheiriaid papur. Mae ymddangosiad systemau cofrestrfa ganolog, yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, a thechnolegau megis technoleg cyfriflyfr gwasgaredig ("DLT") yn fwy diweddar, wedi gwneud masnach di-bapur yn fwy a mwy dichonadwy. Bu cynnydd mawr yn y galw am ddigidoleiddio yn ystod pandemig COVID-19, a gwelodd busnesau fod yn rhaid iddynt ddatblygu atebion technegol yn gyflym mewn ymateb i gyfyngiadau symud byd-eang a chyfyngiadau cyswllt person-i-berson.

Er hyn, mae'r gyfraith ar ei hôl hi o hyd. Mae'r rheolau cyfreithiol sy'n ymwneud â dogfennau masnach papur, gan gynnwys biliau llwytho, biliau cyfnewid a derbynebau warws, yn seiliedig ar y syniad y gellir eu "meddu" neu eu dal mewn llaw. Nid yw'r gyfraith bresennol yng Nghymru a Lloegr yn cydnabod y posibilrwydd o feddu ar ddogfennau electronig; cysylltir meddu ag asedau diriaethol yn unig. O ganlyniad, mae'r gyfraith yn atal diwydiannau sy'n defnyddio'r dogfennau hyn rhag symud tuag at broses gwbl ddi-bapur. Amcangyfrifwyd bod y diwydiant masnach ryngwladol yn cynhyrchu pedair biliwn o ddogfennau papur y flwyddyn.

Credwn fod y sefyllfa gyfreithiol hon yn hynafol, yn aneffeithlon ac yn gwbl anaddas mewn oes pan mae mwy a mwy o brosesau a thrafodion mewn ffurf ddigidol. Gallai darparu ar gyfer fersiynau electronig o rai dogfennau masnach arwain at arbedion sylweddol o ran cost ac effeithlonrwydd, ynghyd â gwelliannau o ran rheoli gwybodaeth a diogelwch. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfraith Cymru a Lloegr ar hyn o bryd yn mwynhau statws dihafal fel y gyfraith o ddewis mewn masnach fyd-eang. Os nad yw'n esblygu i adlewyrchu posibiliadau technolegol newydd, mae perygl iddi golli'r statws dihafal hwn.

Mae'r crynodeb hwn yn mynd law yn llaw â'n hadroddiad, lle rydym yn gwneud argymhellion i ddiwygio'r gyfraith er mwyn sicrhau bod modd i rai dogfennau mewn ffurf electronig gael eu cydnabod yn y gyfraith fel rhai y gellir meddu arnynt, a thrwy hynny gael yr un gydnabyddiaeth a swyddogaeth gyfreithiol â'u cymheiriaid papur. Rydym yn cynnwys bil (y "Bil") a fyddai'n gweithredu'r argymhellion hyn, ac yn darparu esboniad o'r Bil.

Ein gwaith ar ddogfennau masnach electronig yw cam cyntaf ein gwaith ar asedau digidol. Dechreuasom ein gwaith ar gryptoasedau ac asedau digidol eraill ym mis Mawrth 2021, a chyhoeddasom gais am dystiolaeth ym mis Ebrill 2021. Bwriadwn gyhoeddi papur ymgynghori â chynigion ar gyfer diwygio yn haf 2022. Mae mwy o wybodaeth am ein gwaith ar asedau digidol i'w gweld yn https://www.lawcom.gov.uk/project/digital-assets/.

## YR ACHOS DROS DDIWYGIO

### Y broblem feddiant

Mae swyddogaeth rhai dogfennau a ddefnyddir ym myd masnach yn dibynnu, fel mater o gyfraith neu ymarfer masnachol, ar y gallu i'w meddu. Mae hyn oherwydd bod yr hawl i hawlio bod rhwymedigaeth a gofnodir yn y ddogfen yn cael ei chyflawni (megis yr hawl i hawlio bod swm o arian yn cael ei dalu, nwyddau'n cael eu danfon, neu yswiriant yn cael ei dalu) yn ymwneud â'r person sydd â meddiant o'r ddogfen. Mae'r hawl wedi'i hymgorffori yn y ddogfen, a gellir trosglwyddo'r hawl drwy drosglwyddo meddiant y ddogfen (yn ffisegol).

Mae'r gydnabyddiaeth y gall rhywbeth gael ei feddu yn gyfreithiol yn dylanwadu llawer ar y ffordd y caiff ei drin yn gyfreithiol yn dilyn hynny, ac mae goblygiadau i'w swyddogaeth gyfreithiol. Er enghraifft, dim ond pethau y gellir eu meddu sy'n gallu bod yn destun beilïaeth, neu hawlrwym. O ganlyniad, mae gan bethau y gellir eu meddu ystod ehangach o swyddogaethau na rhai na ellir eu meddu.

Gan nad yw cyfraith Cymru a Lloegr (fel llawer o'r prif awdurdodaethau masnach ryngwladol eraill) yn cydnabod bod modd meddu pethau anniriaethol, ni ellir meddu dogfennau masnach electronig, ac o ganlyniad ni allant weithredu yn yr un modd â'u cymheiriaid papur. Rydym yn cyfeirio at hyn fel y "broblem feddiant".

Rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau a fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem feddiant, ac yn caniatáu i ddogfennau mewn ffurf electronig sy'n bodloni meini prawf penodol gael yr un swyddogaeth â'u cymheiriaid papur.

### Fframweithiau contract amlochrog

Ar hyn o bryd dim ond nifer cymharol fach o awdurdodaethau sy'n cydnabod bod gan ddogfennau masnach mewn ffurf electronig yr un effeithiau cyfreithiol â dogfennau masnach papur. Mewn ymateb i'r broblem feddiant, mae'r diwydiant wedi datblygu nifer o ffyrdd o osgoi'r broblem mewn contractau fel bod modd defnyddio dogfennau masnach mewn ffurf electronig yn yr un modd â'u cymheiriaid papur. Dan fframweithiau contract o'r fath, bydd y partïon yn cytuno y bydd trosglwyddo dogfen fasnach mewn ffurf electronig yn rhoi'r sawl y trosglwyddir y ddogfen fasnach mewn ffurf electronig iddo mewn sefyllfa debyg i ddeiliad dogfen fasnach bapur. Mae cytundebau amlochrog felly'n cynhyrchu hawliau contract sy'n cyfateb fwy neu lai i'r hawliau sy'n dilyn meddiant o'r ddogfen fasnach bapur berthnasol.

Mae ffyrdd o osgoi'r broblem mewn contractau yn darparu llawer o fanteision digidoleiddio. Fodd bynnag, maent hefyd yn gwneud trafodion yn fwy cymhleth, ac nid yw eu triniaeth gyfreithiol (yn wahanol i ddogfennau masnach papur) wedi'i phrofi mewn llys. Yn hollbwysig, yr unig bartïon sy'n cael eu rhwymo gan fframweithiau contract yw'r rhai hynny sydd wedi cytuno â'r trefniant. O ganlyniad, yr unig bersonau y mae gan bartïon hawliau (personol) yn eu herbyn yw'r rhai hynny sydd wedi derbyn telerau'r system. Mae unrhyw hawliau perchenogol a geir yn dibynnu ar effeithiau bwriadedig trafodion sy'n cael eu gwneud dros y system, ac a yw'r effeithiau hyn yn cael eu cydnabod yn gyfreithiol fel rhai sy'n darparu'r cyfryw hawliau. Ar y llaw arall, mae meddu ar ddogfen fasnach bapur yn rhoi hawliau (perchenogol) y gellir eu gorfodi yn erbyn y byd i gyd i'r deiliad.

## Posibiliadau newydd o dechnolegau newydd


Wrth i dechnolegau newydd ddod i'r amlwg gwelwyd mwy a mwy o alw am ddigidoleiddio ym myd diwydiant. Er enghraifft, mae DLT yn cynnig siawns i greu dogfennau electronig hyfyw i'w defnyddio ym maes cludo nwyddau, masnach, a chyllid masnach sy'n efelychu prif nodweddion eu cymheiriaid papur. Gellir trosglwyddo dogfennau electronig sy'n seiliedig ar DLT rhwng cyfranogwyr heb fod angen awdurdod canolog, â throsglwyddiadau'n cael eu cofnodi ar gyfriflyfr diogel sydd i bob diben ymarferol yn barhaol. Dywedir bod y data a gofnodir ar y cyfriflyfr yn "ddigyfnewid".

Yn gyffredinol, mae systemau DLT yn rhoi rheolaeth dogfen electronig yn nwylo'r sawl sydd â gwybodaeth am yr "allwedd breifat" berthnasol. Maent hefyd yn cynnig y posibilrwydd o wneud cynnwys dogfennau electronig yn anweledig i bawb ar wahân i'r partïon perthnasol, a thrwy hynny'n diogelu gwybodaeth sensitif o safbwynt masnachol.

Fodd bynnag, nid yw pob system sy'n cynnal dogfennau masnach mewn ffurf electronig yn seiliedig ar DLT, ac nid oes angen iddynt fod er mwyn bodloni'r meini prawf rydym yn eu hargymell ar gyfer dogfennau masnach electronig. Mae llawer o'r systemau a ddefnyddir yn barod yn seiliedig ar drefniadau contract amlochrog, yn systemau cofrestrfa ganolog sydd, yn wahanol i gyfriflyfr gwasgaredig neu ddatganoledig, yn cael eu gweinyddu'n ganolog. Bydd defnyddwyr yn cofrestru ar gyfer cyfrifon y ceir mynediad iddynt â chyfrinair neu fanylion diogelwch eraill. Caiff dogfennau â dynodwyr unigryw eu dyrannu i gyfrif defnyddiwr penodol pan gânt eu dyroddi neu eu trosglwyddo, a gall y defnyddiwr perthnasol gadw neu drosglwyddo'r ddogfen.

## Effaith bosibl diwygio

Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â digidoleiddio dogfennau masnach, gan gynnwys lleihau costau adnoddau a chostau gweithredu yn sylweddol, mwy o effeithlonrwydd, mwy o dryloywder, mwy o ddiogelwch, llai o gamgymeriadau, manteision amgylcheddol, a mwy o allu i wrthsefyll effaith digwyddiadau annisgwyl megis COVID-19. Yr un pryd, rydym yn cydnabod bod costau hefyd. Byddai'r costau mwyaf uniongyrchol yn rhai trosiannol, yn deillio o'r angen i hyfforddi staff i ddefnyddio systemau newydd, i ddatblygu a mireinio prosesau mewnol newydd, ac o'r amser a dreulid yn negodi â phartneriaid masnach. Dywedwyd wrthym na ddylid gorbwysleisio'r potensial i leihau neu ddileu twyll drwy ddefnyddio dogfennau electronig. Rydym hefyd yn credu y dylai unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ddefnyddio DLT gael eu gwerthuso'n ofalus.



## Y dull lleiaf ymyriadol

Mae cyfraith Cymru a Lloegr yn gweithredu'n effeithiol iawn mewn cysylltiad â dogfennau papur, ac mae endidau masnachol o bob cwr o'r byd sy'n ymwneud â masnach drawsffiniol yn ymddiried ynddi. Ein bwriad, os caiff y diwygiadau rydym yn eu hargymell eu rhoi ar waith, yw sicrhau y gallai diwydiant ddal i weithredu yn unol â'r un rheolau ac arferion ag y maent yn eu dilyn ar hyn o bryd, ond â'r dewis i ddefnyddio dogfennau masnach electronig neu bapur.

Yr hyn y bwriadwn ei wneud yng nghyswllt dogfennau masnach electronig yw creu system sy'n hwyluso yn hytrach na gorfodi. Os caiff ein hargymhellion eu rhoi ar waith ni fyddant yn effeithio ar ddilysrwydd na gweithrediad systemau contract, cyn belled nad yw'r ddogfen electronig yn dod o fewn cwmpas y Bil.

### Caniatáu ar gyfer meddu dogfennau masnach mewn ffurf electronig

Yn ganolog i'r dull lleiaf ymyriadol hwn mae ein barn y dylid gallu meddu ar ddogfennau masnach mewn ffurf electronig, ac y dylai'r un cyfreithiau ac arferion fod yn gymwys i ddogfennau masnach boed yn ddogfennau papur neu electronig. Credwn mai defnyddio meddiant fel y cysyniad gweithredol mewn cysylltiad â dogfennau masnach mewn ffurf electronig yw'r dull gweithredu gorau. Fel y trafodir isod, mae gan feddiant rôl greiddiol yn swyddogaeth bresennol dogfennau masnach papur, mewn cyfraith gwlad ac mewn statudau domestig, o safbwynt penderfynu pwy all gael hawliau a hawliadau penodol. Er mwyn sicrhau bod dogfennau masnach papur ac electronig yn gyfwerth, credwn y byddai'n ddymunol cadw'r un iaith a nodweddion hawliau cyfreithiol ar gyfer y naill a'r llall.

Mae defnyddio meddiant fel cysyniad diffiniol yn golygu y gellir ymgorffori dogfennau masnach electronig mewn fframwaith cyfreithiol sy'n bodoli'n barod, ac sy'n seiliedig ar gysyniadau defnyddiol o safbwynt masnachol, a hwnnw'n fframwaith y mae'r gymuned fasnach ryngwladol yn gyfarwydd ag ef yn barod. Mae hon yn ystyriaeth bwysig iawn gan fod cyfraith Cymru a Lloegr yn sail i lawer iawn o fasnach ryngwladol. Credwn mai'r dull hwn o weithredu fydd yn amharu leiaf ar y trefniadau a'r dadansoddiadau cyfreithiol presennol.

O ganlyniad, rydym yn argymell y dylai dogfennau masnach mewn ffurf electronig allu cael eu meddu fel mater o gyfraith, cyn belled eu bod yn bodloni meini prawf penodol sy'n sicrhau y gallant efelychu prif nodweddion dogfennau masnach papur.

Bydd gweithredu ein hargymhellion yn golygu y gall partïon ddefnyddio'r gyfraith sy'n gymwys ar hyn o bryd i ddogfennau masnach papur wrth wneud trafodion â dogfennau masnach electronig. Ni fydd angen systemau ar wahân ag effeithiau cyfwerth. Credwn mai'r dull hwn o weithredu fydd yn amharu leiaf ar y trefniadau a'r dadansoddiadau cyfreithiol presennol. Er hyn, rydym yn nodi y gellid cyfiawnhau dull gweithredu gwahanol o bosibl mewn cysylltiad â chryptoasedau ac asedau digidol eraill, sy'n cael eu hystyried ar wahân gennym.

## Rôl y llysoedd

Ein hargymhellion yw y dylid cael "fframwaith" statudol i ganiatáu i ddogfennau masnach mewn ffurf electronig sy'n bodloni meini prawf penodol fod yn agored i feddiant, ac o ganlyniad i fod yn gyfwerth â dogfennau masnach papur o safbwynt cyfreithiol. Os caiff ein hargymhellion eu rhoi ar waith, bydd y llysoedd yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddehongli a chymhwyso darpariaethau deddfwriaeth o'r fath yng ngoleuni'r gyfraith gwlad bresennol sy'n gymwys i ddogfennau masnach papur, wedi'i haddasu ar gyfer deunydd digidol.

Lle mae'r Bil yn dawel ynglŷn â sut y mae cysyniadau penodol yn gymwys i ddogfennau masnach electronig (er enghraifft, amseriad trosglwyddo meddiant, danfon, gwrthod, a derbyn), rôl y llysoedd fydd cymhwyso egwyddorion presennol y cysyniadau hynny i ddogfennau masnach electronig, yn amodol ar unrhyw addasiadau angenrheidiol i gyfraith gwlad gan ystyried eu natur ddigidol.

Er enghraifft, er bod y Bil yn nodi y gellir meddu ar ddogfennau masnach electronig, nid yw'n dweud beth mae meddu ar ddogfen fasnach electronig yn ei olygu. Mae meddiant yn gysyniad hyblyg iawn mewn cyfraith gwlad ac mae'n ddibynnol iawn ar ffeithiau penodol. Mae'n cynnwys dwy elfen, sef rheolaeth ffeithiol a bwriad i ymarfer rheolaeth o'r fath, y naill a'r llall yn cael eu hasesu'n wrthrychol. Bydd rheolaeth ddigonol mewn cysylltiad ag ased benodol yn dibynnu ar y math o ased. Y llysoedd fydd yn gyfrifol am wneud yr asesiad hwn, â chymorth y gyfraith achosion bresennol, y credwn y gellir ei hallosod i ddogfennau masnach electronig.

## Niwtraliaeth dechnolegol

Nid yw ein hargymhellion na'r Bil yn seiliedig ar swyddogaeth technoleg benodol. Yn hytrach, rydym yn gofyn: fel mater cyfreithiol, pa nodweddion y mae'n rhaid i ddogfennau masnach mewn ffurf electronig eu cael er mwyn bod yn gyfwerth â dogfennau papur, ac o ganlyniad yn agored i gael eu meddu? Nid ydym yn awgrymu mai dim ond ag un math arbennig o dechnoleg y gellir bodloni unrhyw rai o ofynion y Bil. Y bwriad yw bod y diwygiadau rydym yn eu hargymell yn gallu darparu ar gyfer technolegau'r dyfodol. Credwn y bydd ein dull o weithredu yn meithrin arloesi ac yn sicrhau bod modd gwneud trefniadau masnachol mwy hyblyg. Bydd hefyd yn osgoi'r risgiau o gyfeirio at dechnolegau penodol a allai yn fuan iawn fod wedi dyddio neu wedi'u disodli, ac o beidio â chynnwys atebion posibl eraill sy'n bodoli'n barod neu a allai godi yn y dyfodol.



## Cydweddu rhyngwladol

Rydym yn nodi bod meddiant yn ganolog i'r defnydd o ddogfennau masnach ar draws awdurdodaethau amrywiol. Adlewyrchir ymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem feddiant a digideiddio dogfennau masnach mewn cynlluniau amrywiol mewn fframweithiau rhyngwladol ac awdurdodaethau unigol sy'n ceisio rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol i'r defnydd o ddogfennau electronig. Mae'r prif gynlluniau yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gontractau ar gyfer Cludo Nwyddau yn Gyfan Gwbl neu'n Rhannol ar y Môr 2008, y Gyfraith Enghreifftiol ar Gofnodion Trosglwyddadwy Electronig ("MLETR") a gynhyrchwyd gan Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith Masnach Ryngwladol, datblygiadau yn Singapore, a Chod Masnachol Unffurf yr Unol Daleithiau.

Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cydweddu rhyngwladol i'r graddau y mae hyn yn bosibl. Mae'n hanfodol bod dogfennau masnach electronig yn gallu symud rhwng gwahanol awdurdodaethau a chael eu cydnabod drwy'r byd fel dogfennau sy'n gyfwerth o safbwynt cyfreithiol â fersiynau papur.

Wrth ddatblygu'r diwygiadau rydym yn eu hargymell, rydym wedi bod yn ymwybodol yn fwyaf arbennig o'r MLETR, o ystyried ei bwysigrwydd. Mae'r MLETR yn darparu prototeip ar gyfer cynlluniau diwygio'r gyfraith ar lefel genedlaethol. Mae'n ceisio galluogi'r defnydd o gofnodion trosglwyddadwy electronig drwy sefydlu cywerthedd cyfreithiol rhwng rheoli cofnod trosglwyddadwy electronig (megis bil cyfnewid) a meddiannu offeryn neu ddogfen bapur drosglwyddadwy. Mae ein hargymhellion yn gyson â nodau a pholisi'r MLETR, ond maent wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer cyfraith Cymru a Lloegr.



## Y GYFRAITH BRESENNOL AR DDOGFENNAU MASNACH

Mae ein hargymhellion yn ymwneud â dogfennau a ddefnyddir yn eang ym myd masnach a chyllid, ac sy'n dibynnu ar feddiant er mwyn cyflawni eu swyddogaethau masnachol.

### Dogfennau masnach

Fel arfer, nid yw dogfennau sy'n cofnodi rhwymedigaethau a hawliau yn ddim mwy na thystiolaeth ohonynt. Mae'r rhwymedigaethau a'r hawliau, a'r dogfennau sy'n dystiolaeth ohonynt, yn ddau beth annibynnol ac yn cael eu trin felly. Er hyn, mae ymarfer masnachol wedi arwain at ddefnyddio rhai mathau o ddogfennau fel symbolau (neu ymgorfforiadau) o'r hawl i hawlio bod y rhwymedigaethau a gofnodir ynddynt yn cael eu cyflawni. Yn syml iawn, mae'r hawl i hawlio bod y rhwymedigaeth berthnasol yn cael ei chyflawni yn "teithio" gyda'r ddogfen.

Yn yr adroddiad, rydym yn ystyried y gyfraith bresennol sy'n gymwys i'r dogfennau masnach a ganlyn yn fanwl, er nad yw cwmpas ein hargymhellion wedi'i gyfyngu iddynt.

1. Biliau cyfnewid
2. Nodiadau addewidiol
3. Biliau llwytho
4. Archebion danfon llong
5. Derbynebau warws
6. Derbynebau is-gapten
7. Polisïau yswiriant morol
8. Tystysgrifau yswiriant cargo

Yn ymarferol, gall y dogfennau hyn gael eu defnyddio, ymhlith pethau eraill, rhwng prynwyr a gwerthwyr wrth werthu nwyddau ar draws ffiniau i gyflawni, neu fel tystiolaeth o gyflawni, rhwymedigaethau contract. Gallant hefyd gael eu defnyddio gan fanciau, sy'n gweithredu fel darparwyr gwasanaeth mewn trafodion masnach ryngwladol drwy (i) prosesu taliadau, (ii) casglu dogfennau i'r prynwr, a/neu (iii) ariannu trafodion. Gall banc, er enghraifft, gael meddiant ar fil llwytho yn unol â throsglwyddiad dilys i ddod yn ddeiliad arno, a thrwy hynny gael sicrhad meddiannol dros y nwyddau sy'n berthnasol i'r bil llwytho.

**Defnydd o'r term "dogfennau masnach"**
Defnyddiwyd nifer o wahanol dermau i gyfeirio at y dogfennau hyn dros y blynyddoedd, er enghraifft "dogfen deitl", "offeryn negodol" ac "asedau anniriaethol sydd ynghlwm wrth ddogfennau" (documentary intangible). Fodd bynnag, ein bwriad yw peidio â chael ein llethu gan derminoleg. Fel term cyffredinol, i gynnwys pob dim, rydym yn defnyddio'r term "dogfennau masnach" yn ein hargymhellion ac yn y Bil i gyfeirio at y dogfennau rydym yn ymdrin â hwy.

**Canlyniadau ymgorffori hawliau mewn dogfennau masnach**
Mae ymgorffori hawl mewn dogfen yn arwain at nifer o ganlyniadau.

1. Mae danfon (a, lle bo angen, arnodiad) yn ddigon i drosglwyddo'r hawl i hawlio bod y rhwymedigaeth a ymgorfforwyd yn y ddogfen fasnach wedi'i chyflawni. Mae'r gallu i drosglwyddo hawliau yn rhwydd yn dilyn hyn yn hybu effeithlonrwydd a chyfleuster mewn trafodion masnachol.
2. Os yw'r gyfraith yn cydnabod bod modd meddu rhywbeth, gall fod yn destun cysyniadau cyfreithiol megis beilïaeth, buddiannau sicrhad meddiannol, a chamymyrryd â nwyddau (trosiant).
3. Bydd person sydd â'r ddogfen fasnach yn ei feddiant yn gwybod y bydd ei hawl yn y ddogfen honno yn cael ei diogelu rhag ymyriad yn yr un modd ag y byddai'n cael ei diogelu ag unrhyw ased ddiriaethol arall. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau hyn yn cael eu trin fel asedau diriaethol ynddynt eu hunain, sy'n golygu eu bod yn cael eu diogelu gan gamweddau eiddo atebolrwydd caeth tresmasu a throsi, yn ogystal ag esgeulustod. Ar y llaw arall, nid yw ymyrryd â hawliau sy'n anniriaethol yn unig yn cael ei ddiogelu gan y camweddau eiddo, ac mae hawlwyr yn gorfod troi at y camweddau economaidd (megis ysgogi tor contract neu achosi colled drwy ddull anghyfreithlon), lle mae angen sefydlu math penodol o fwriad ar ran y diffynnydd.
4. O safbwynt rhwymedïau ar gyfer ymyrryd, caiff dogfennau masnach eu trin yn wahanol i ddogfennau papur eraill. Er enghraifft, ar gyfer dogfennau arferol sydd ddim ond yn dystiolaeth o'r hawl, swm yr iawndal mewn trosiant fyddai gwerth enwol y papur, ond ar gyfer dogfennau masnach sy'n ymgorffori'r hawl, swm yr iawndal yw gwerth y rhwymedigaeth neu'r hawl a ymgorfforwyd yn y ddogfen.
5. Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen fasnach, rhaid i'r person y mae'r rhwymedigaeth yn ddyledus ganddo ildio cyflawniad i ddeiliad y ddogfen. Ni fydd ildio cyflawniad i unrhyw un arall yn rhyddhau'r rhwymedigaeth.



## MATHAU O DDOGFENNAU SY'N CAEL EU DIOGELU GAN Y DIWYGIADAU RYDYM YN EU HARGYMELL

Mae ein hargymhellion a'r Bil yn ymwneud dim ond â'r dogfennau hynny y mae meddiant yn berthnasol mewn cysylltiad â hwy er mwyn i berson allu hawlio bod rhwymedigaeth wedi'i chyflawni. Maent yn diogelu unrhyw ddogfen bapur a ddefnyddir ym myd masnach y mae meddiant yn berthnasol iddi (fel mater o gyfraith neu ymarfer masnachol) er mwyn i berson allu hawlio bod rhwymedigaeth wedi'i chyflawni, heb ystyried ei hunion natur gyfreithiol. Rydym yn argymell bod y "ddarpariaeth ambarél" hon yn cael ei gosod mewn deddfwriaeth.

Rydym hefyd yn argymell cynnwys rhestr o ddogfennau sy'n gweithredu ar sail meddiant ac y gwyddom eu bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ym myd masnach, gan ein bod yn credu y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r diwydiant. Rhestr enghreifftiol yw hon, ac nid yw'n hollgynhwysol, a dylai dogfen sydd ar y rhestr gael ei dal gan ein hargymhellion ni dim ond os oes angen meddiant i'w gweithredu. Rydym yn argymell bod y rhestr yn cynnwys y dogfennau a restrir uchod.

### Eithriad i rai dogfennau

Rydym yn argymell y dylid eithrio rhai mathau o ddogfennau a allai fel arall ddod o fewn cwmpas y Bil. Mae'r rhain yn offerynnau sy'n cael eu cofnodi dan "system berthnasol" dan Reoliadau Gwarannau heb Dystysgrif 2001, a bondiau dygiedydd (gwarannau dyledion sy'n cael eu dal mewn ffurf ffisegol). Defnyddir yr offerynnau hyn yn bennaf mewn marchnadoedd ariannol. Mae'n well ymdrin â hwy ar wahân yn hytrach nag yn y Bil hwn sydd wedi'i anelu at fasnach ryngwladol.

### Pŵer i ychwanegu, tynnu, neu ddiwygio cofnod yn y rhestr o ddogfennau sydd wedi'u heithrio

Credwn y gallai ein diwygiadau arwain at newid arwyddocaol mewn ymarfer, ac rydym yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid ychwanegu at y rhestr o eithriadau yn y Bil yn y dyfodol neu ddiwygio'r rhestr. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth gynnwys pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol, i ychwanegu, dileu, neu ddiwygio mewn ffordd arall y rhestr o ddogfennau sy'n cael eu heithrio o gwmpas y Bil.

## Y MEINI PRAWF PORTH

Y man cychwyn ar gyfer ein dull o weithredu oedd ystyried pa ofynion y mae'n rhaid i ddogfen fasnach mewn ffurf electronig eu bodloni er mwyn efelychu prif nodweddion dogfen fasnach bapur, cyn y gellid ystyried y gallai gyflawni'r un swyddogaethau â'i chymheiriaid papur. Rydym yn argymell "meini prawf porth" penodol y mae'n rhaid i ddogfen mewn ffurf electronig eu bodloni er mwyn bod yn "ddogfen fasnach electronig" at ddibenion ein hargymhellion a'r Bil.

### Y maen prawf cyntaf: gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfen fasnach electronig

Mae gan rai dogfennau masnach papur sy'n dod o fewn y diwygiadau rydym yn eu hargymell ofynion yn ymwneud â'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei chynnwys er mwyn bod yn gymwys fel y ddogfen fasnach honno. Gall y gofynion hyn ddeillio o statud, cyfraith gwlad neu arferion.

Rydym yn argymell y dylai'r Bil gynnwys maen prawf sy'n nodi bod yn rhaid i ddogfen mewn ffurf electronig gynnwys yr un wybodaeth ag a fyddai'n cael ei chynnwys yn y ddogfen bapur gyfwerth er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Bydd yr argymhelliad hwn yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r gofynion y mae'n rhaid i ddogfennau mewn ffurf electronig eu bodloni o safbwynt cynnwys er mwyn bod yn gymwys fel dogfennau masnach electronig.

Mae'n bwysig hefyd sefydlu'r cyswllt rhwng y ddogfen mewn ffurf electronig a'r fersiwn papur cyfatebol. Byddai gofyniad o'r fath yn gymwys dim ond i'r graddau bod yn rhaid i ddogfen fasnach bapur gynnwys gwybodaeth benodol er mwyn cymhwyso felly. Ni fyddai ein hargymhellion yn cyflwyno unrhyw ofyniad newydd yn ymwneud â'r wybodaeth y dylai dogfen mewn ffurf electronig ei chynnwys.

### Ystyr "dogfen" yn y cyd-destun electronig

Gall dogfen mewn ffurf electronig gynnwys nifer o gydrannau. Un gydran bob amser fydd yr achos arbennig o linyn data neu strwythur data sy'n cynnwys cod gweithredol, sy'n rhesymegol gysylltiedig â'r rhan o'r ddogfen ar ffurf y gall pobl ei darllen (ac sy'n uniaethu'n benodol â hi). Mae'n bosibl y bydd cydrannau eraill sy'n cynnwys testun ar ffurf y gall pobl ei ddarllen, er enghraifft ffeil .pdf. Er mwyn i'n hargymhellion fod yn rhai y gellir eu rhoi ar waith, rhaid ystyried cydrannau amrywiol dogfen fasnach electronig fel un ddogfen. Er enghraifft, pan fyddwn yn cyfeirio isod at ddogfen fasnach electronig sy'n agored i reolaeth gyfyngedig, ac o ganlyniad yn un y gellir ei meddu, mae'n debygol y bydd rheolaeth yn cael ei hymarfer drwy strwythur data sylfaenol y ddogfen. Ar y llaw arall, bydd y gofyniad bod yn rhaid i ddogfen fasnach mewn ffurf electronig gynnwys yr un wybodaeth ag y byddai'n ofynnol ei chynnwys yn y ddogfen fasnach bapur gyfwerth yn debygol o gael ei chyflawni gan y gydran o'r ddogfen sydd ar ffurf y gall pobl ei darllen. Mae'r gydran hon yn rhesymegol gysylltiedig â'r strwythur data y gellir ei reoli. Mae'n bosibl na fydd y diffiniadau presennol o "ddogfen" yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn cipio hyn. O ganlyniad, lle mae dogfen fasnach mewn ffurf electronig yn cynnwys elfennau ar wahân, ond cysylltiedig – strwythur data yn cynnwys cod gweithredol, rhan o'r ddogfen ar ffurf y gall pobl ei darllen sy'n cynnwys neu'n nodi hawliau penodol – rydym yn argymell y dylai'r elfennau hyn gyda'i gilydd ffurfio "y ddogfen".

## Yr ail faen prawf: dibynadwyedd system dogfen fasnach electronig

Rydym yn argymell y dylai'r Bil gynnwys gofyniad y dylai dogfen fasnach electronig fod yn ddibynadwy. Drwy ddweud "dibynadwy" rydym yn golygu bod system electronig yn bodloni safonau penodol o ran y ffordd y mae'n gweithredu. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn gallu "ymddiried" mewn systemau er mwyn i ddogfennau masnach electronig gael eu defnyddio'n eang, yn enwedig o ystyried risg bosibl seiberdroseddau. Er ein bod yn disgwyl y bydd partïon masnachol yn ystyried materion diogelwch a risg wrth ddewis system dogfennau masnach electronig, byddai'r ymddiriedaeth hon yn fwy tebygol o godi pe bai'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â dibynadwyedd. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Bil gynnwys rhestr heb fod yn hollgynhwysol o ffactorau y gellir eu hystyried wrth asesu a yw system yn ddibynadwy. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol â'r MLETR.

Er hyn nid ydym yn meddwl y dylai'r Bil wneud darpariaeth ar wahân ar gyfer proses achredu, a fyddai'n gwarantu lefel benodol o wrthrychedd wrth asesu dibynadwyedd y system a ddefnyddir. Byddai mynnu bod systemau penodol yn cael eu hachredu gan gorff rheoleiddio cenedlaethol neu gorff rheoleiddio wedi'i benodi gan y wladwriaeth yn feichus, a gallai arwain at oedi'r broses o newid i ddogfennau masnach electronig tra byddai system achredu o'r fath yn cael ei sefydlu. Credwn mai'r ffordd orau o ddelio â materion o'r fath yw drwy safonau diwydiant sy'n gallu adlewyrchu datblygiad dynamig technoleg yn y maes hwn.

## Y trydydd maen prawf: uniondeb dogfen fasnach electronig

Rydym yn argymell y dylid cael gofyniad yn ymwneud ag "uniondeb" dogfen fasnach electronig; hynny yw, rhaid iddi gael ei diogelu rhag ymyriadau neu addasiadau heb eu hawdurdodi. Mae uniondeb yn bwysig er mwyn sefydlu bod dogfen yn wreiddiol neu'n ddilys. Credwn y bydd gofyniad yn ymwneud ag uniondeb yn annog ymddiriedaeth mewn dogfennau masnach electronig, ac yn mynd i'r afael â'r risg o seiberdroseddau a sgamiau cysylltiedig.



## Y pedwerydd maen prawf: y gallu i ymarfer rheolaeth gyfyngedig

**Y cysyniad o reolaeth**

Mae rheolaeth yn elfen sylfaenol o'n hargymhellion mewn dwy ffordd wahanol:

1. Yn gyntaf, mae rheolaeth yn un o'r ddwy elfen sy'n ofynnol mewn cyfraith gwlad er mwyn i rywun fod â rhywbeth yn ei feddiant (yr elfen arall yw bwriad).
2. (2) Yn ail, rydym yn argymell y dylai bod yn agored i reolaeth gyfyngedig fod yn faen prawf angenrheidiol er mwyn i ddogfen fasnach mewn ffurf electronig fod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Rydym yn cynnwys cysyniad o reolaeth yn y Bil at y diben hwn yn unig (er bod y cysyniad yn seiliedig ar asesiadau cyfraith gwlad o reolaeth/meddiant).

**Rheolaeth gyfyngedig fel rhan o'r maen prawf porth**

Yn y byd papur, mae'n bosibl i nifer o bobl gael rheolaeth (a meddiant) o ased yr un pryd. Yn yr un modd, yn y byd electronig, gall nifer o bobl gael rheolaeth dros y ddogfen yr un pryd oherwydd, er enghraifft, eu bod i gyd yn gwybod y cyfrinair perthnasol neu'r allwedd breifat i'r ddogfen. Er hyn, mae mater pwy sydd "â rheolaeth" ar wahân i fater y nodweddion y mae'n rhaid i ddogfen eu cael er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Swyddogaeth y maen prawf rheolaeth gyfyngedig yw mynd i'r afael â'r broblem "gwariant dwbl" fel na allai, er enghraifft, dau berson â'r allwedd breifat ill dau drosglwyddo'r ddogfen i ddau le gwahanol yn annibynnol ar ei gilydd. Drwy "reolaeth gyfyngedig", rydym yn golygu na ddylai fod yn bosibl i fwy nag un person (ar wahân i weithredwyr ar y cyd) ymarfer rheolaeth ar unrhyw adeg benodol.

At ddibenion ein hargymhellion, mae'r cysyniad o reolaeth yn ymholiad ffeithiol, yn hytrach na chyfreithiol. Gan fod y cysyniad o reolaeth yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol yng nghyfraith Cymru a Lloegr, rydym yn argymell cynnwys cysyniad o reolaeth mewn deddfwriaeth at ddibenion y meini prawf porth i ddarparu eglurder ynglŷn â'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Rydym yn argymell y dylid cymryd bod person yn ymarfer rheolaeth dros ddogfen mewn ffurf electronig pan fo'r person yn defnyddio, yn trosglwyddo neu'n cael gwared ar y ddogfen mewn ffordd arall. Dylai "defnyddio" dogfen fasnach mewn ffurf electronig gynnwys defnyddio neu gadw'r ddogfen i gyflawni pwrpas penodol. Dylai gynnwys achosi i rywbeth ddigwydd i'r ddogfen (neu atal rhywbeth rhag digwydd iddi), ond ni ddylai gynnwys dim ond darllen neu weld y ddogfen.

Mae ein polisi ar reolaeth fel a ganlyn.

1. Rhaid i ddogfen mewn ffurf electronig fod mewn gwirionedd yn un a all fod yn ddarostyngedig i reolaeth gyfyngedig.
2. Gallai mwy nag un person fod â rheolaeth dros ddogfen mewn ffurf electronig (oherwydd, er enghraifft, bod gan bob un ohonynt y manylion diogelwch neu'r allwedd breifat sydd ei hangen i wneud trafodiad).
3. Er y gallai mwy nag un person fod â rheolaeth dros ddogfen mewn ffurf electronig, rhaid sicrhau mai dim ond un person (neu bersonau yn gweithredu ar y cyd) sy'n gallu ymarfer y rheolaeth honno ar unrhyw adeg benodol.

Rydym felly'n argymell, er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig, bod yn rhaid i ddogfen fasnach mewn ffurf electronig fod yn agored i reolaeth gyfyngedig; hynny yw, dim ond un person (neu bersonau yn gweithredu ar y cyd) ddylai allu ymarfer rheolaeth dros ddogfen mewn ffurf electronig ar unrhyw adeg benodol.

### Y pumed maen prawf: y gallu i ymryddhau (divestibility)

Rydym yn argymell y dylai dogfen fasnach mewn ffurf electronig hefyd fod yn un y gellir “ymryddhau” oddi wrthi er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Drwy hyn rydym yn golygu bod yn rhaid i drosglwyddo dogfen fasnach electronig olygu trosglwyddo’r ddogfen a’r gallu i reoli’r ddogfen. Ar ôl i’r ddogfen gael ei throsglwyddo, ni fydd unrhyw berson a oedd yn gallu ymarfer rheolaeth dros y ddogfen cyn y trosglwyddo yn gallu gwneud hynny mwyach (ac eithrio i’r graddau bod person yn gallu ymarfer rheolaeth oherwydd bod y ddogfen wedi’i throsglwyddo iddo). Mae’r nodwedd hon yn atal dogfen fasnach electronig rhag cael ei throsglwyddo fwy nag unwaith gan yr un parti, neu gan barti arall sydd â rheolaeth yr un pryd â’r trosglwyddwr. Cyfeirir at hyn fel mater “gwariant dwbl”.

### Y chweched maen prawf: adnabod y ddogfen

Deallwn fod llawer o’r systemau presennol sy’n cael eu datblygu yn caniatáu i ddefnyddwyr ddal i gael mynediad at gopïau ar gyfer eu cofnodion. Credwn fod hyn yn cyfateb i wneud llungopi neu sganio dogfen bapur cyn iddi gael ei throsglwyddo neu ei gwaredu, nad yw’n ymyrryd â meddiant y gwreiddiol. Credwn fod angen cynnwys gofyniad, fel rhan o’r meini prawf porth, yn nodi y dylai dogfen fasnach mewn ffurf electronig fod yn adnabyddadwy fel bod modd gwahaniaethu rhwng y ddogfen ei hun ac unrhyw gopïau ohoni. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad yw copïau o ddogfennau masnach electronig yn galluogi “gwariant dwbl” neu ddefnyddio’r copi fel y gwreiddiol.

### Y seithfed maen prawf: adnabod y personau a allai ymarfer rheolaeth dros ddogfen mewn ffurf electronig

Rydym hefyd yn argymell y dylid cynnwys maen prawf ychwanegol yn nodi er mwyn bod yn gymwys fel dogfen fasnach electronig bod yn rhaid sicrhau bod modd cysylltu’r ddogfen fasnach mewn ffurf electronig mewn ffordd unigryw â’r person neu’r personau sy’n gallu ymarfer rheolaeth drosti.

Bwriedir i’r maen prawf hwn gipio’r syniad y dylai’r system dan sylw fod yn un a all sicrhau bod modd adnabod unrhyw berson sy’n gallu ymarfer rheolaeth dros y ddogfen mewn ffurf electronig, pa un a yw unrhyw berson yn ymarfer y rheolaeth honno neu beidio mewn gwirionedd. Mae’r gofyniad hwn yn adlewyrchu’r cysylltiad rhwng y ddogfen fasnach mewn ffurf electronig a’r person neu bersonau sy’n gallu ymarfer rheolaeth dros y ddogfen honno.

Nid ydym yn golygu y dylai rhywun allu gweld, drwy edrych ar y system ei hun, pwy sy’n gallu ymarfer rheolaeth. Yr hyn rydym yn ei olygu yw bod person, os gofynnir am dystiolaeth o’i allu i ymarfer rheolaeth, yn gallu profi hynny ar y system. Er enghraifft, os oes gan dri pherson fynediad at yr allwedd breifat i ddogfen, dylai’r system ganiatáu i bob un o’r tri pherson hyn ddangos ei fod yn berson sy’n gallu ymarfer rheolaeth drwy ddangos neu ddefnyddio ei allwedd breifat.



## MEDDU AR DDOGFENNAU MASNACH ELECTRONIG

Rydym yn argymell y dylai dogfennau mewn ffurf electronig sy’n bodloni’r meini prawf porth allu cael eu meddu, ac y dylai’r egwyddor hon gael ei gosod yn glir mewn statud.

### Beth yw meddiant yng nghyd-destun dogfennau masnach electronig?

Nid yw ystyr meddiant yng nghyfraith Cymru a Lloegr yn gysyniad syml. Mae’n ymholiad sy’n ddibynnol ar ffeithiau penodol, ac oherwydd hyn nid ydym yn argymell y dylid nodi mewn deddfwriaeth beth yw meddu ar ddogfen fasnach electronig. Credwn y dylid asesu meddiant fel mater o gyfraith gwlad: cymerid bod person (naturiol neu gyfreithiol) yn meddu ar ddogfen fasnach electronig pan fydd ganddo lefel a math digonol o reolaeth drosti, a phan fydd y rheolaeth hon yn cael ei hategu gan y bwriad angenrheidiol.

Mae meddiant hefyd yn gymharol. Mae’n bosibl y bydd nifer o bobl yn gallu hawlio eu bod, neu eu bod wedi bod, ar adeg benodol, yn meddu ar ddogfen electronig – er enghraifft lle mae gan nifer o bobl wybodaeth am yr allwedd breifat neu’r manylion diogelwch perthnasol. Pe bai anghydfod ar y mater, byddai’r llys yn penderfynu, drwy ystyried y ffeithiau perthnasol ac ar sail egwyddorion presennol cyfraith gwlad, pwy sydd â’r hawliad gorau. Gallai hyn godi yn y byd go iawn hefyd, er enghraifft, pe bai nifer o bobl yn gwybod beth yw cod sêff neu os oes gan bob un allwedd i gar neu warws.

Ar ben hynny, yn ogystal â meddiant gwirioneddol, gallai partïon fod â buddiannau perchenogol eraill mewn dogfennau masnach electronig, gan gynnwys meddiant cyfreithiol (sef yr hawl i feddu yn hytrach na meddiant gwirioneddol).

### Beth sy’n cael ei ystyried fel trosglwyddo meddiant dogfen fasnach electronig?

Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, wrth drosglwyddo meddiant gwirioneddol mae angen trosglwyddo rheolaeth oddi wrth y trosglwyddwr. Er mwyn cael meddiant, rhaid i’r trosglwyddai/trosglwyddeion hefyd gael y bwriad angenrheidiol. Ar system sy’n seiliedig ar DLT, credwn y bydd hyn yn digwydd fel arfer pan fydd y trosglwyddwr yn defnyddio ei allwedd breifat i anfon y ddogfen fasnach electronig i gyfrif y trosglwyddai, a thrwy hynny’n ymryddhau ei hun oddi wrth y ddogfen fasnach electronig. Bydd hyn yn debyg ar system cofrestrfa ganolog: ar ôl i’r trosglwyddiad gael ei wneud, dim ond manylion diogelwch y trosglwyddai (hynny yw, manylion mewngofnodi) fydd yn darparu’r gallu i drosglwyddo neu ymarfer rheolaeth mewn ffordd arall dros y ddogfen.

## CANLYNIADAU GWNEUD DOGFEN FASNACH ELECTRONIG YN UN Y GELLIR MEDDU ARNI

### Defnyddio dogfennau masnach electronig yn yr un modd â dogfennau masnach papur

Rydym yn argymell y dylai dogfennau masnach electronig a dogfennau masnach papur gael yr un swyddogaeth gyfreithiol ym mhob ystyr, a dylai unrhyw beth y gellir ei wneud i ddogfen fasnach bapur gael yr un effaith pe bai'n cael ei wneud i ddogfen fasnach electronig. Ni ddylai ffurf y ddogfen wneud unrhyw wahaniaeth i'r ffyrdd y gellir defnyddio'r ddogfen, nac i'r rhwymedïau sydd ar gael mewn cysylltiad â hi, ac eithrio lle mae'r ffurflen o reidrwydd yn nodi dull gweithredu ychydig yn wahanol. Er enghraifft, ni all dogfen fasnach electronig fod yn agored i reolaeth "ffisegol" a gallai fod yn anodd pennu ei lleoliad daearyddol, felly er bod y materion hyn o gymorth er mwyn penderfynu ynglŷn â meddiant dogfen fasnach bapur, mae'n bosibl na fyddant yn berthnasol yn y cyd-destun electronig.

Canlyniad allweddol y gallu i feddu ar ddogfennau masnach electronig yn llygad y gyfraith yw y bydd eu meddiant yn pennu pwy sydd â hawl i hawlio bod y rhwymedigaeth berthnasol yn cael ei chyflawni. Yn yr un modd, bydd anfon y ddogfen oddi wrth un person i un arall yn golygu bod modd trosglwyddo'r hawliau a'r hawliadau perthnasol i'r olaf, fel sy'n digwydd â dogfennau papur. Er enghraifft, ni fydd angen newyddu er mwyn trosglwyddo hawliau contract. Ni fydd angen atwrnment ychwaith er mwyn trosglwyddo meddiant deongliadol nwyddau, oni bai fod ei angen hefyd pan ddefnyddir y ddogfen yn ei ffurf bapur. Yn fyr, gan ddibynnu ar natur y ddogfen fasnach, gellir defnyddio dogfennau masnach electronig fel offerynnau negodol, dogfennau teitl, neu ddogfennau yswiriant aseiniadwy.

Mae'r ffaith fod nifer o systemau electronig yn bodoli ar hyn o bryd (er yn ddibynnol ar drefniadau contract) wedi'u cynllunio i efelychu swyddogaethau biliau llwytho papur a dogfennau masnach eraill yn dangos ei bod yn gwbl bosibl adlewyrchu prosesau papur yn y maes electronig. Mae'r systemau hyn yn golygu y gall prosesau masnach cyffredin (megis gwerthu nwyddau tra maent ar y ffordd) a chyllid masnach (megis arwystlo nwyddau sydd ar long neu mewn warws i fanc) ddigwydd heb fod angen defnyddio papur. Bydd y diwygiadau rydym yn eu hargymell yn sicrhau bod defnyddwyr dogfennau sy'n bodloni'r meini prawf yn y Bil yn gallu eu defnyddio gan wybod y byddant yn cael yr un effeithiau cyfreithiol â'u cymheiriaid papur, heb fod angen defnyddio ffyrdd o osgoi'r broblem yn gyfreithiol.

### Cymhwyso cysyniadau meddiannol i ddogfennau masnach

Mae modd meddu ar ddogfennau masnach papur a gallant fod yn ddarostyngedig i gysyniadau cyfreithiol megis beilïaeth, buddiannau sicrhad meddiannol, a chamymyrryd (trosiant). Bwriadwn i'r un rhwymedïau, i'r graddau y maent yn gymwys i ddogfennau masnach papur, fod ar gael mewn cysylltiad â dogfennau masnach electronig. Mae'r dadansoddiad neu'r ystyriaethau perthnasol yn aros yr un fath pa un a yw'r ddogfen fasnach mewn ffurf electronig neu mewn ffurf bapur. Er enghraifft, byddai hacio i mewn i system, cymryd rheolaeth dros ddogfen fasnach electronig, a'i throsglwyddo i drydydd parti yn ffordd amlwg o drosi dogfen o'r fath pe bai'r ymyriad yn ddigon i gymryd hawliau meddiannol oddi ar y sawl sy'n cael ei ddadfeddiannu.

### Materion nad oes darpariaeth benodol ar eu cyfer yn y Bil

Mae dadansoddi gwahanol gamau gweithredu y gellir eu cyflawni mewn cysylltiad â dogfen fasnach, a'u heffeithiau cyfreithiol, yn bwysig er mwyn egluro i ba raddau y gellir sicrhau cywerthedd rhwng dogfennau papur ac electronig. Mae hyn yn cynnwys y cysyniadau o ddanfon a'r adeg y gellir dweud bod trosglwyddiad wedi digwydd, yn ogystal â gwrthod a diwygio dogfen fasnach.

Credwn nad oes angen cynnwys darpariaethau penodol ar y materion hyn yn y Bil, naill ai oherwydd y byddai'r egwyddorion presennol yn cael eu cymhwyso gan y llysoedd yn y cyswllt hwn, neu oherwydd y byddai'r systemau/platfformau yn mabwysiadu protocolau penodol ar y materion hyn, y gellid eu cymhwyso fel mater o gontract. Am resymau tebyg, nid ydym yn meddwl bod angen darparu'n benodol ar gyfer rhyddhau, ildio neu gyflawni dogfen fasnach electronig. Gallai cyfeirio'n bennaf at y gweithredoedd hyn yn y Bil effeithio ar niwtraliaeth dechnolegol, gan y byddai'n rhaid i ni hefyd gynnwys darpariaethau yn nodi sut y byddai'r gweithredoedd hyn yn cael eu cyflawni.

### Cyfraith ryngwladol breifat

Mae masnach ryngwladol yn golygu trosglwyddo nwyddau, arian, a dogfennau ategol ar draws ffiniau. Ar hyn o bryd mae cyfres o reolau rhyngwladol preifat cymhleth yn pennu pa lysoedd sydd ag awdurdodaeth dros anghydfod, a chyfraith pa wlad ddylai gael ei chymhwyso er mwyn ei ddatrys. Mae'r rheolau hyn yn gymhleth ac yn ddibynnol ar ffeithiau penodol, a gallai dogfennau masnach electronig arwain at faterion newydd y mae angen eu hystyried ymhellach. Er enghraifft, mae anawsterau cynhenid wrth geisio canfod lleoliad daearyddol asedau digidol, gan gynnwys dogfennau masnach electronig. Yn yr un modd, gallai cwestiynau godi o ran sut y byddai dogfen fasnach electronig a roddir yng Nghymru a Lloegr yn cael ei thrin gan wlad nad yw'n cydnabod dilysrwydd dogfennau masnach electronig. Credwn y dylid ymdrin ag agweddau cyfraith ryngwladol breifat ar ddogfennau masnach electronig mewn prosiect ar wahân sy'n ymdrin yn fwy cyffredinol ag asedau digidol. Nid ydym yn credu y gallwn roi ystyriaeth foddhaol i'r materion hyn yng nghyd-destun y prosiect hwn. Yn y cyswllt hwn, fel rhan o'n 14eg rhaglen ddiwygio'r gyfraith, gobeithiwn ddechrau gweithio yng nghanol 2022 ar wrthdaro rhwng cyfreithiau a thechnoleg sy'n datblygu.



## ARGYMHELLION – MATERION ERAILL

### Materion ffurfiol

**"yn ysgrifenedig"**
Gallai fod yn ofynnol i ddogfennau sy'n dod o fewn cwmpas ein cynigion ar gyfer diwygio fod "yn ysgrifenedig". Yn wahanol i'r MLETR, nid ydym yn cynnwys darpariaeth benodol yn y Bil sy'n caniatáu i ddogfennau electronig fodloni gofynion sy'n ymwneud â bod "yn ysgrifenedig". Mae hyn oherwydd bod cyfraith Cymru a Lloegr yn diffinio "ysgrifenedig" mewn termau cyffredinol. Er enghraifft, mae atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn diffinio ysgrifenedig fel deunydd wedi'i deipio, argraffu, lithograffau, ffotograffau a dulliau eraill o gyfleu neu atgynhyrchu geiriau mewn ffurf weledol. Yn ychwanegol at hyn, mae statudau at ei gilydd, oni nodir yn wahanol, yn cael eu dehongli gan y llysoedd er mwyn ymateb i ddatblygiadau cymdeithasol, gan gynnwys newidiadau mewn technoleg. Mae gwaith ymchwil pellach gennym yn awgrymu bod arddangosiadau electronig yn debygol o gael eu hystyried fel rhai sy'n bodloni'r gofyniad i fod "yn ysgrifenedig". O ganlyniad, credwn fod y sefyllfa mewn cyfraith ddomestig yn glir yn barod: gall dogfen fasnach mewn ffurf electronig fodloni gofyniad i fod yn ysgrifenedig.

**"wedi'i llofnodi"**
Mae'n bosibl y bydd angen i ddogfennau masnach fod wedi'u llofnodi er mwyn eu cyhoeddi'n ddilys. Mae'r MLETR yn gwneud darpariaeth benodol fel bod modd llofnodi dogfennau electronig. Fodd bynnag, fel rydym yn trafod yn fanwl yn ein Hadroddiad Gweithredu Electronig, mae cyfraith Cymru a Lloegr eisoes yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer llofnodion electronig. Nid ffurf y llofnod sy'n bwysig (oni bai fod y gyfraith yn nodi hynny), ond a yw wedi'i gymhwyso mewn modd sy'n dangos bwriad y partïon i ddilysu'r ddogfen. Credwn y gellir defnyddio llofnodion electronig i lofnodi dogfennau masnach electronig heb fod angen darpariaeth statudol benodol.

**Arnodi**
Mae arnodi yn rhan hanfodol o drosglwyddo llawer o ddogfennau masnach ac unrhyw hawliau sydd ynghlwm wrthynt. Mae arfer busnes o arnodi dogfennau papur ar eu cefn. Yn wahanol i ddogfen bapur, mae'n bosibl na fydd gan ddogfen electronig "gefn", ac o ganlyniad, credwn ei bod yn bwysig sicrhau y bydd arnodiad electronig yn ddilys lle bynnag y mae wedi'i leoli ar y ddogfen. Yn unol â hynny, rydym yn argymell bod y ddeddfwriaeth yn darparu y gellir arnodi dogfen fasnach electronig.



### Hygyrchedd gwybodaeth

Credwn nad oes angen darpariaeth yn y Bil yn nodi y dylai gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfen fasnach electronig fod yn hygyrch. Fel mater o ymarferoldeb, oni bai fod partïon yn gallu cael mynediad a dangos bod eu dogfen yn bodloni gofynion eraill y Bil, ni allant brofi bod y ddogfen dan sylw yn gymwys fel dogfen fasnach electronig. Credwn fod meini prawf argymelledig eraill a roddir yn y Bil (megis y rhai sy'n ymwneud â "defnyddio", "trosglwyddo" neu "waredu mewn ffordd arall") sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson â rheolaeth ffeithiol ryngweithio â dogfen electronig mewn rhyw ffordd, yn sicrhau y byddai person yn cael mynediad at yr wybodaeth yn y ddogfen.

### Setiau o ddogfennau

Mae'n arferiad cyffredin o hyd i rai dogfennau masnach, megis biliau llwytho a biliau cyfnewid, gael eu llunio mewn setiau o dri. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r dogfennau hyn gael eu llunio mewn setiau, ac o ganlyniad nid ydym o'r farn fod angen cynnwys gofyniad bod yn rhaid i'r system y mae dogfen fasnach electronig yn bodoli arni wneud hyn yn bosibl. Os bydd yr arferiad hwn yn parhau yng nghyd-destun dogfennau masnach electronig, credwn fod darparwyr technoleg yn debygol o ddatblygu eu platfformau i alluogi dogfennau masnach electronig i gael eu cyhoeddi mewn setiau, ac nid yw'r gyfraith na'n hargymhellion ni yn gwahardd hyn.

### Newid ffurf neu gyfrwng

Gan gofio y bydd llawer o'r dogfennau y bydd ein diwygiadau argymelledig yn ymwneud â hwy yn cael eu defnyddio mewn trafodion trawsffiniol, mae'n anorfod y bydd gwahanol awdurdodaethau yn cydnabod dogfennau masnach electronig i raddau amrywiol. Mewn rhai sefyllfaoedd felly mae'n bosibl y bydd angen defnyddio dogfen bapur yn lle dogfen fasnach electronig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell y dylid cynnwys darpariaeth yn caniatáu newid ffurf dogfen fasnach o ffurf electronig i bapur, ac fel arall. Ein bwriad yw sicrhau bod modd newid ffurf neu gyfrwng, gan nodi'n glir beth yw'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn newid cyfrwng yn ddilys, a beth yw canlyniadau hynny.

Ar ôl newid cyfrwng, dim ond cyfrwng y ddogfen sy'n newid, ac mae popeth arall (megis lle mae'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi a'r hawliau a'r atebolrwyddau sy'n gysylltiedig â hi) yn aros yr un fath.

Er mwyn i newid cyfrwng fod yn ddilys, rydym yn argymell y dylai'r ddogfen yn ei chyfrwng neu ffurf newydd gynnwys datganiad yn nodi ei bod wedi cael ei throsi, ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion contract neu ofynion eraill yn ymwneud â throsi'r ddogfen.

Cyn belled ag y cydymffurfir â'r gofynion hyn felly, lle caiff dogfen ei throsi, dylai effaith y ddogfen yn ei hen ffurf ddod i ben, a dylai'r holl hawliau ac atebolrwyddau sy'n gysylltiedig â'r ddogfen ddal i gael effaith mewn cysylltiad â'r ddogfen yn ei ffurf newydd.

Gan fod y gofyniad i gynnwys datganiad ar y ddogfen fasnach sydd wedi'i throsi yn rhoi gofyniad ffurfioldeb mandadol, bydd methiant i gynnwys datganiad o'r fath yn arwain at newid cyfrwng annilys at ddibenion y Bil.

## Cymhwyso'r Bil i'r dogfennau masnach presennol

Rydym yn argymell na allai dogfennau a gyhoeddir cyn y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym allu bod yn ddogfennau masnach electronig o fewn ystyr y ddeddfwriaeth honno. Mae'r dogfennau hyn yn debygol o gael eu llywodraethu gan fframweithiau contract preifat. Nid ydym yn credu y dylai'r partïon sydd wedi gwneud y trefniadau contract hyn orfod penderfynu a yw eu dogfennau presennol yn ddogfennau masnach electronig o fewn ystyr y Ddeddf. Yn yr un modd, credwn na ddylid caniatáu newid cyfrwng dogfen fasnach bapur a gyhoeddwyd cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Bydd pryd y gellir dweud bod dogfen fasnach benodol wedi'i chyhoeddi yn dibynnu ar y ffeithiau, a'r math o ddogfen dan sylw.

## Diwygio deddfwriaeth arall

Rydym yn argymell y dylid diddymu adrannau 1(5) ac 1(6) o Ddeddf Cludo Nwyddau ar y Môr 1992, sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau i sicrhau bod modd cyhoeddi biliau llwytho, teithrestrau môr ac archebion danfon llong drwy ddulliau electronig. Yn dilyn ein diwygiadau argymelledig, mae'r pwerau a roddir yn yr adrannau hyn yn ddiangen. Argymhellwyd hefyd y dylid diwygio adran 89B(2) o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882 i eithrio dogfennau masnach electronig o fewn ystyr y Bil. Ar hyn o bryd, mae'r adran hon yn rhagweld y cyflwynir dogfennau masnach ffisegol drwy ddulliau electronig. Nid yw ein hargymhellion yn ymwneud â dogfen ffisegol. Mae'n briodol felly bod dogfennau masnach electronig o fewn ystyr y Bil yn cael eu heithrio o gwmpas y darpariaethau hyn.